

GRAWYS

Darllen 1 Samuel 16:1–13; Salm 23; Effesiaid 5:8–14; Ioan 9:1–41

Cofio cyfannu Ewrop

Gweddi

(Cofier os yw'r weddi'n cael ei hoffrymu yn gyhoeddus eich bod yn defnyddio'r symbolau – pridd, bara, baneri, map, Beibl, cannwyll).

Arweinydd:

Symbolau yw'r rhain o bethau yr ydym yn eu rhannu.

Down â pheth o bridd Ewrop, symbol o'r ddaear yr ydym yn ei rhannu.

Am y rhodd o'n genedigaeth a'n hetifeddiaeth gyffredin ...

Pawb:

Molwn enw'r Arglwydd.

Arweinydd:

Down â'r bara hwn, symbol o ffrwyth y ddaear, a llafur y bobl.

Am y rhodd o fwyd, a'r dasg gyffredin o adeiladu bywyd
ein cenhedloedd ...

Pawb:

Molwn enw'r Arglwydd.

Arweinydd:

Down â'r baneri hyn o wahanol wledydd Ewrop, symbol o'n hanes gwahanol.

Am amrywiaeth ein hetifeddiaeth gyffredin, sy'n ein cyfoethogi, nid ein gwahanu ...

Pawb:

Molwn enw'r Arglwydd.

Arweinydd:

Down â'r map o Ewrop, symbol o Ewrop sy'n ehangu ac uno.

Am y ddealltwriaeth sy'n tyfu, a'r ymdrechion ar y cyd mewn gwleidyddiaeth a masnach ...

Pawb:

Molwn enw'r Arglwydd.

Arweinydd:

Down â'n Beiblau mewn gwahanol ieithoedd, sylfaen ein ffydd gyffredin.

Am ein cyfeillach yng Nghrist, a'r dasg gyffredin o ledaenu'r Efengyl i'r cenhedloedd ...

Pawb:

Molwn enw'r Arglwydd.

Arweinydd:

Down â'r gannwyll hon, symbol o oleuni'r byd, Iesu Grist.

Am y rhodd gan Dduw i'r holl bobl, y Gair yn gnawd ...

Pawb:

Molwn enw'r Arglwydd.

Yn enw Iesu. Amen.

GWEDDI

Drwy'r hoelion, a'r coroni – draw, a'i gur,
Drwy y gwawd a'r poeri,
Drwy y gwinegr, dir gyny,
Drwy ei boen fawr, derbyn fi.

Robert ap Gwilym Ddu

YSTYR YMPRYDIO YN Y GRAWYS

Darllen Jona 3

Y mae'r syniad o ympryd yn hen iawn, fel y gwelwn yn Llyfr Jona a rhannau eraill o'r Hen Destament. Ystyr y Grawys yw - y deugain niwrnod o 'ympryd' cyn Gŵyl y Pasg, a dyna bwysigrwydd y cyfnod hwn i Gristnogion pob oes.

Gwyddom fod Iesu ei hun wedi ymprydio yn ystod y deugain niwrnod cyn y temtiad. Ond mae'n amheus gennyf yn bersonol ai ymprydio rhag bwyd a wnaeth Iesu. Gall fod elfen o hynny yn bresennol, ond gwell gennyf ystyried ei ympryd fel ympryd o ran ei feddwl, ei enaid a'i ysbryd. Hwnnw yn ddiamau yw'r ympryd y galwai'r proffwyd amdano a'r ympryd sydd ei angen yn ein hanes ni'r Grawys hwn.

Cofiwn mai'r hyn sydd y tu ôl i ymprydio cywir yw ein hadnabyddiaeth ohonom ni ein hunain. Sylweddoli a wnawn ein bod yn ffaeledig ac yn gwbl amddifad o gyfiawnder Duw a grasusau adnewyddol Iesu. A bod yn gwbl onest, pobl â thraed o glai ydym; mewn geiriau eraill, pobl a syrthiodd yn fyr o'r nod, o'r uchel alwedigaeth yng Nghrist Iesu. Mae angen maddeuant arnom. Rhaid i ni gofio o hyd ac o hyd am wyrth gras Duw, a'i drugaredd a'i gariad hael at bobl. Deuwn gyda'n gilydd i wleddoedd yr Efengyl. Dywedwn gydag Ann Griffiths, yr emynyddes o Faldwyn, am ein Gwaredwr a wyddai am lwybr yr ympryd:

'Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd;
ar ddeng mil y mae'n rhagori
o wrthrychau penna'r byd:
ffrind pechadur,
dyma'r llywydd ar y môr.'

Ffrind pechadur yw ein cysur ni.

'Beth sydd imi mwy a wnelwyf
ag eilunod gwael y llawr?
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
i'w gystadlu â'm Iesu mawr:
O am aros
yn ei gariad ddyddiau f'oes.'

'Aros yn ei gariad' trwy'r Grawys a'r Pasg a'n holl fywyd.

D. Ben Rees